

Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 13 TACHWEDD 2019, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Aelodau â phleidlais: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Mr Simon Banham; Dr Cathryn Charnell-White; Dr Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Dr Sarah Davies; Dr Rebecca Edwards; Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Dr Sarah Higgins; Mr Tomos Ifan, Llywydd UMCA; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Cerys Jones, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Ffion Jones; Mr Chris Loftus; Dr Alex Mangold; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Mr David Moyle; Yr Athro Eleri Pryse; Mr Dhan Ramnatsing, Llywydd UMAber; Yr Athro Phillipp Schofield; Miss Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Dr Victoria Wright; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.

Aelodau heb bleidlais: Dr Guy Baron; Yr Athro Simon Cox; Yr Athro Andrew Evans; a Dr Thomas Jansen.

Yn gweinyddu: Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Yr Athro Iain Donnison; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Yr Athro Nigel Holt; Mr John Morgan; Dr Anoush Simon; and Dr Sarah Wydall.

14. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Croeso

Cafodd Heledd Davies ei chroesawu i'r cyfarfod yn dilyn ei phenodi'n gyfieithydd ar y pryd yn y Brifysgol. Diolchwyd i Rhys Huws am ei wasanaeth i'r sefydliad yn gyfieithydd ar y pryd ar ei liwt ei hun ers nifer o flynyddoedd.

2. Sesiwn Wybodaeth

Yn ôl cais gan aelodau yn y cyfarfod diwethaf, cynhaliwyd sesiwn wybodaeth anffurfiol i aelodau'r Senedd cyn y cyfarfod ffurfiol ynglŷn ag addysg draws-wladol. Byddai copi o'r cyflwyniad ar gael trwy safle SharePoint i'r aelodau nad oeddent yn gallu dod i'r sesiwn (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

15. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

16. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 02 Hydref 2019 (SEN1920-020). ?????

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar un newid i gynnwys enw'r Athro Dr Ian Donnison ymhlith yr 'aelodau â phleidlais' (GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol).

17. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1920-021).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

18. GOHEBIAETH

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

19. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1920-022).

NODWYD

1. Roedd dwy brif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; ac adroddiad ynglŷn â chynllunio a chofrestriadau myfyrwyr.
2. Roedd gweithgareddau i baratoi am ddatliadau 150 pen blwydd y Brifysgol yn 2022 bellach ar waith. Ymhlith y cynigion roedd bwriad i gofnodi hanes diweddar y sefydliad (ers y canmlwyddiant ym 1972) mewn 100 o eitemau. Cysylltir ag adrannau maes o law i ofyn am gyfraniadau i'r cyhoeddiad hwn.
3. Gofynnodd yr aelodau pa drefniadau oedd yn cael eu gwneud i sicrhau bod gan y Brifysgol bresenoldeb amlwg ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yng Ngheredigion rhwng 01 a 08 Awst 2020. Byddai'r Is-Ganghellor yn mynd ar drywydd hyn gyda Chyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol er mwyn sicrhau bod yr holl adrannau academiaidd yn cyfrannu'n addas yn y paratoadau (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).
4. Nid oedd y ffigyrau yn adroddiad yr Is-Ganghellor ynglŷn â chynllunio a chofrestriadau myfyrwyr yn cynnwys uwchraddedigion rhan-amser. Roedd rhai

adrannau'n derbyn y rhan fwyaf o'u huwchraddedigion ar sail ran-amser, a theimlai'r aelodau nad oedd y ffigyrau yn yr adroddiad felly yn rhoi darlun cywir. Byddai hyn yn cael ei adolygu mewn adroddiadau yn y dyfodol (**GWEITHREDU:** Pennaeth Cynllunio).

20. Y BWRDD ACADEMAIDD

1. Datganiadau Sicrhau Ansawdd

NODWYD

1. Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cymru yn rhoi pwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethu ar gyfer darparu sicrwydd ynglŷn â materion ansawdd a safonau. Rhaid i'r Cyngor felly gytuno ar Ddatganiad Blyneddol Sicrhau Ansawdd a'i gyflwyno i'r Cyngor Cyllido ym mis Rhagfyr 2019.
2. Gofynnir i'r Cyngor gytuno ar y Datganiadau Sicrwydd Ansawdd yn seiliedig ar adroddiad manwl a baratoir gan y Gofrestrfa Academaidd. Oherwydd amseriad y cyfarfodydd eleni ni fu'n bosibl drafftio'r adroddiad hwn mewn pryd i'w ddsbarthu i'r Senedd. Gwahoddwyd aelodau'r Senedd felly i ystyried yr adroddiad trwy ohebiaeth, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.

2. Strategaeth Academaidd cyfrwng Cymraeg

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol), yn ymgorffori drafft Strategaeth Academaidd cyfrwng Cymraeg 2019-23 (SEN1920-023).

NODWYD

1. Cynhyrchwyd drafft y Strategaeth Academaidd cyfrwng Cymraeg er mwyn cydnabod pwysigrwydd hanfodol ymrwymiad y Brifysgol i ddatblygu darpariaeth academaidd trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd ei seilio ar ddogfennau tebyg, ac fe fu ymgynghori ag amrywiol randdeiliaid ynglŷn â'r drafft, er mwyn gwahanol ddulliau.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r Strategaeth Academaidd cyfrwng Cymraeg (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol)).

21. PWYLLGOR YMCHWIL

1. Strategaeth Ymchwil ac Arloesi

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi), yn ymgorffori drafft y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi 2019-24 (SEN1920-024).

NODWYD

1. Cafodd Strategaeth Ymchwil ac Arloesi newydd ei datblygu, ac ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol yn ei chylch, gan gynnwys y Senedd yn ystod y diwrnod encil ar 02 Hydref 2019. Cafodd ei chynllunio i ategu Cynllun Strategol 2018-2023 y sefydliad, ac roedd yn nodi pum egwyddor er mwyn gwella diwylliant ymchwil y Brifysgol.
2. Trafododd yr aelodau gynnwys y Strategaeth ddrafft a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn fanwl. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd yr angen i ryddhau mwy o amser i roi staff academiaidd mewn sefyllfa i ymgymryd ag ymchwil, yn ogystal â'r angen am fwy o gyfleon datblygu staff yn gysylltiedig ag ymchwil ar bob cam o'u gyrfa.
3. Cydnabuwyd y dylid cymryd camau i leihau'r baich gweinyddol cyn belled ag y gellir, ac y dylai camau o'r fath gynnwys lleihau nifer y cynlluniau gradd a gynigir gan y Brifysgol - gan gynnwys rhai cynlluniau nad oeddent wedi denu myfyrwyr ers rhai blynyddoedd. Serch hynny, cydnabuwyd yr un modd na fyddai lleihau nifer y cynlluniau o angenrheidrwydd yn lleihau nifer y modiwlau a gynigir, gan y gallai cynnwys rhai cynlluniau fod yn debyg i'w gilydd ar adegau.
4. Cafodd fersiwn ddiweddaraf drafft y Strategaeth ei ystyried gan Weithrediaeth y Brifysgol y diwrnod blaenorol, lle'r argymhellodd yr aelodau rai mân newidiadau cyn cyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor. Roedd y diwygiadau arfaethedig yn cynnwys dileu cynnig i gael Cyfarwyddwr Ymchwil ym mhob adran academiaidd, er mwyn osgoi ailgyflwyno strwythurau cymhleth. Trafodwyd hyn gan yr aelodau, a chytunwyd y dylid chwilio am ffordd wahanol.

PENDERFYNWYD

5. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Ymchwil ac Arloesi 2019-24, yn amodol ar fân ddiwygiadau i adlewyrchu'r adborth a roddwyd gan aelodau'r Senedd (**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi)).

22. DARPARIAETH NYRSIO A GOFAL IECHYD PERTHYNOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); a'r Uwch Swyddog Prosiectau (SEN1920-025).

NODWYD

1. Yn rhan o'i chenhadaeth ddinesig, mae'r Brifysgol yn awyddus i ganfod ffyrdd o ddiwallu anghenion gofal iechyd y Canolbarth trwy gynnig mwy o gyfleoedd hyfforddi ac addysg, a chynorthwyo gyda datblygiad gyrfaedd. Yn y cyd-destun hwn, roedd y Brifysgol yn bwriadu gweithio gyda byrddau iechyd lleol i ddatblygu darpariaeth addysg yn Aberystwyth, yn ogystal â chynorthwyo i ddarparu addysg feddygol gyda'r byrddau iechyd lleol a phrifysgolion eraill.

2. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf am y datblygiadau hyn yn hyn, ac fe'i drafodwyd yn fanwl gan yr aelodau. Croesawodd y Senedd y cynnig y bydd darpariaeth BSc Nyrsio a Gofal Iechyd Perthynol yn cael ei gynnig yn y Brifysgol erbyn mis Medi 2022, a'r camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i benodi unigolyn i ddatblygu'r cynnig ymhellach.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r cynnig a nodwyd yn yr adroddiad.

23. ENWEBIADAU AM RADDAU ER ANRHYDEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1920-026).

NODWYD

1. Ar 25 Hydref 2019, cyfarfu Grŵp Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau am Raddau er Anrhydedd y Brifysgol. Amlinellai'r adroddiad argymhellion y Pwyllgor ynglŷn â dyfarnu Graddau er Anrhydedd.

PENDERFYNWYD

2. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r enwebiadau a gynigiwyd am Raddau er Anrhydedd (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

24. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN1920-027);
2. Grantiau Ymchwil (SEN1920-028); a
3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (SEN1920-029).

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

25. COFNODION PWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN1920-030):

1. Y Cyngor (11 Hydref 2019).

NODWYD

2. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.